ColegauCymru CollegesWales

Yn codi proffil addysg bellach
Raising the profile of further education

newyddion Cymraeg ColegauCymru #203
16 Tachwedd /November 2015

Croeso i e-newyddion ColegauCymru yn y Gymraeg - y diweddariad wythnosol o newyddion colegau addysg bellach Cymru.

Os ydych yn darllen copi sydd wedi ei anfon atoch gan rywun arall, ac hoffech danysgrifio eich hun, da chi Cysylltwch.

Welcome to Welsh language edition of the CollegesWales e-news.

Do please let us know if you would like to subscribe to our English language version as well as - or instead of - this Welsh language version.

Partneriaethau Strategol

Dirprwyaeth uchel ei phroffil o Tsieina yn ymweld â Choleg y Cymoedd

Mae Coleg y Cymoedd wedi elwa o gynnal digwyddiad rhyngwladol yn cynnwys cynrychiolwyr uchel eu proffil gyda'r nod o wella partneriaethau rhwng y DU a Tsieina.
Fe rhan o achlysur cau pen y mwdwl 'Deialog Pobl â Phobl y DU-Tsieina', cynhaliodd y coleg gyfarfod ac arddangosiad o waith myfyrwyr ar gyfer 30 o bobl broffesiynol addysg bellach o'r DU a Tsieina gan gynnwys aelodau cynghorau, penaethiaid a llywyddion colegau ac ysgolion o Chongqing, yn Tsieina
Mwy>>>

Grŵp Llandrillo Menai a Lockheed Martin UK: Cytundeb i ddarparu hyfforddiant ar gyfer y sector ynni

Bu Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones ar ymweliad swyddogol â Choleg Menai, sy'n rhan o Grŵp Llandrillo Menai, yr wythnos ddiwethaf.
Mewn cyfarfod gyda chynrychiolwyr o'r Grŵp a Lockheed Martin UK, datganwyd fod Grŵp Llandrillo Menai a'r gorfforaeth ryngwladol i gydweithio ar gampws y coleg yn Llangefni.
Mwy>>>

Coleg Merthyr Tudful a UCATT i feithrin dysgu a sgiliau

Mae'r Coleg Merthyr Tudful wedi llofnodi cytundeb partneriaeth gyda UCATT - Yr Undeb Adeiladu, Crefftau Perthynol a Thechnegwyr, i feithrin dysgu a sgiliau yn y maes adeiladu. Bydd y bartneriaeth yn gweld y ddwy ochr yn gweithio gyda'i gilydd i rannu gwybodaeth, adnoddau a mentrau arferion gorau er mwyn hyrwyddo a chodi proffil dysgu,

hyfforddiant a sgiliau o fewn adeiladwaith.
Mwy>>>

Ansawdd Colegau

Gorau byd plastro y DU ... eto

Mae adran blastro Grŵp o Golegau NPTC wedi cael ei enwi fel y gorau yn y DU am yr ail flwyddyn yn olynol. Dyfarnwyd tlws John G. Robinson gan Feistr a Wardeniaid y Cwmni Anrhydeddus o Blastrwyr am fod yr adran plastro sy'n perfformio orau yn y DU.
Mwy>>>

Addysgwr Menter y flwyddyn IOEE

Mae Sue Poole o Goleg Gŵyr Abertawe wedi cael ei henwi'n Addysgwr Menter y Flwyddyn IOEE yn dilyn seremoni wobrwyo a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Nhŷ'r Arglwyddi.
Cafodd Gwobrau Dathlu Menter eu cynnal gan y Sefydliad Menter ac Entrepreneuriaid (IOEE) a'r Sefydliad Datblygu Menter Busnesau Bach (SFEDI), gan ddwyn ynghyd addysgwyr, entrepreneuriaid a ffigurau allweddol eraill o sector busnesau bach, menter a sgiliau y DU.
Mwy>>>

Dirprwy Weinidog yn ymweld consortiwm dysgu seiliedig ar waith o safon

Croesawodd Coleg Sir Benfro Julie James AC, y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau a Thechnoleg, ac ymgeisydd Llafur Cymru Marc Tierney, yr wythnos ddiwethaf.
Gyda'r arolwg ESTYN diweddar o'r consortiwm a arweinir gan y coleg dysgu yn y gwaith, B-wbl, a arweiniodd at 10 o ddyfarniadau Rhagorol a phump Da, roedd Julie James AC yn awyddus i weld sut caiff dros 5,000 o ddysgwyr ar draws 17 allan o'r 22 sir yng Nghymru wella eu sgiliau.
Mwy>>>

Dilyniant Myfyrwyr

Rhaglen Brentisiaeth yn Meithrin Talent yn y Maes Peirianneg

Dychwelodd saith cyn prentis Cwmni Prentis Menai, a sefydlwyd gan Goleg Menai, i dderbyn eu tystysgrifau ar ôl cwblhau'r hyfforddiant prentisiaeth yn llwyddiannus ac i son am eu gyrfaoedd yn y sector peirianneg.
Mwy>>>

Llongyfarchiadau! Llwyddiant Myfyrwyr

Cydnabyddiaeth Frenhinol i ddisgyblion Glan-y-Môr

Cafodd disgyblion Ysgol Glan-y-Môr Charlie Hall, Lewis Ellar a Bradley Webb eu trin fel un o'r teulu brenhinol yr wythnos ddiwethaf pan gawson nhw wahoddiad i dderbyniad ym Mhalas Buckingham yng nghwmni Ei Uchelder Brenhinol Dug Efrog.

Daeth y gwahoddiad brenhinol yn dilyn eu llwyddiant yn y Gwobrau Cenedlaethol TeenTech lle enillon nhw'r Categori Cludiant gyda'u syniad arloesol ar gyfer system wedi'i chyfeirio gan synhwyrydd ar gyfer cadeiriau olwyn, syniad roedden nhw wedi'i ddatblygu gyda chymorth Steve Williams, Arweinydd Cwricwlwm Technoleg Ddigidol yng Ngholeg Gŵyr Abertawe, a'r myfyrwyr Corey Nixon, Declan Wells ac Adam Edwards.
Mwy>>>

Gweithio gyda Busnes

Y Principality yn ymuno â Choleg Caerdydd a'r Fro i gefnogi Mind Cymru

Mae cymdeithas adeiladu fwyaf Cymru, Coleg Caerdydd a'r Fro a bwyty lleol sy'n cael ei redeg gan ddau gogydd sydd wedi cyrraedd rownd derfynol MasterChef wedi dod at ei gilydd ar gyfer menter goginio unigryw er mwyn codi arian at elusen.
Mwy>>>

Technolegau Ffermio'r Dyfodol yn dod i Lynllifon

Cafodd myfyrwyr cyrsiau amaeth campws Glynllifon Grŵp Llandrillo Menai wledd o arddangosfa o dechnoleg ffermio fwyaf blaengar gwerth cannoedd o filoedd o bunnoedd gan y cwmni rhyngwladol Kverneland, blaenwyr y farchnad peiriannau ffermio.
Mwy>>>

Entrepreneur yn amlygu gwerth y Gymraeg mewn busnes

Mae cyfarwyddwr a chyd-sefydlydd y cwmni Y Gorau o Gymru, asiantaeth arobryn archebu bythynnod gwyliau moethus yng Nghymru, wedi rhoi cyfrif treiddgar i fyfyrwyr Coleg Ceredigion am bwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg mewn busnes a masnach.
Mwy>>>

Cyfleoedd Dysgu

Paratoi ar gyfer profiad gwaith Ewropeaidd

Mae dau grŵp o fyfyrwyr Coleg Merthyr Tudful wedi bod yn dysgu Almaeneg wrth ymbaratoi i deithio i'r Almaen am bythefnos o brofiad gwaith.
Mae'r deuddeg myfyriwr trin gwallt a'r deg myfyriwr adeiladwaith yn rhan o garfan o dros 272 o fyfyrwyr y coleg a fydd yn cael y cyfle i gael lleoliadau gwaith Erasmus+ yn yr Almaen yn ystod y ddwy flynedd nesaf.
Mwy>>>

Myfyrwyr Gwaith Brics flwyddyn ar y blaen

Mae myfyrwyr gwaith brics Coleg Caerdydd a'r Fro flwyddyn ar y blaen i'w cyrsiau eisoes – ac nid yw'r tymor llawn cyntaf wedi gorffen eto hyd yn oed.

Fel rhan o ymgyrch y coleg i sicrhau bod y myfyrwyr yn gyflogadwy a bod ganddynt y sgiliau y mae cyflogwyr eu hangen, mae'r myfyrwyr Gwaith Brics Lefel 2 yn ychwanegu gwaith Lefel 3 at eu cwrs.
Mwy>>>

Gweithdy perfformiad yn adnabod pen-blwydd Tryweryn

Bu myfyrwyr Coleg Ceredigion yn ffodus i gymryd rhan mewn gweithdy dawns dan arweiniad y perfformiwr enwog, Eddie Ladd, fel rhan o weithgareddau i nodi 50 mlynedd ers boddi dadleuol Capel Celyn, ger y Bala.
Mwy>>>

Cynhadledd fawreddog yn ysbrydoli cogyddion addawol

Yn ddiweddar, cafodd myfyrwyr arlwyo Coleg Ceredigion y fraint o ymweld ag un o brif uchafbwyntiau calendr digwyddiadau'r diwydiant coginio proffesiynol, Cynhadledd Flynyddol Pen-cogyddion yr Alban, y'i hysbysebir fel y "sioe coginio fwyaf ar gyfer cogyddion, gan gogyddion"
Mwy>>>

CodiSTEM mewn Digwyddiad ar Gyfleoedd Hyfforddi

Tyrrodd cannoedd o ddisgyblion o ysgolion Môn a Gwynedd i Goleg Menai'r wythnos ddiwethaf i ddau ddigwyddiad CodiSTEM a drefnwyd gan y coleg a Gyrfa Cymru i gyflwyno gwybodaeth a chyngor am yrfaeodd ym meysydd Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM).
Mwy>>>

Cyflwyno blas ar fwyta'n iach mewn llyfrgelloedd cyhoeddus

Mae gwasanaeth llyfrgell Coleg Sir Gâr wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â llyfrgelloedd cyhoeddus Sir Gaerfyrddin i gyflwyno digwyddiadau'n seiliedig ar fwyta'n iach.
Mwy>>>

ColegauCymru, Uned 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Caerdydd, CF15 7AB
CollegesWales, Unit 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Cardiff, CF15 7AB